DARGANFOD POWYS

# symudwch i'r **canolbarth**
# move to **mid wales**

DISCOVER POWYS



symudwchiganolbarthcymru.com
movetomidwales.com

Powys

# Cam i'r cyfeiriad cywir



**Mae Powys yn cynnig amrywiaeth anhygoel o dirweddau a gyda hynny, cyfle. Fe'i lleolir yn ganolog rhwng De Cymru ddiwydiannol, Gororau Swydd Amwythig a Swydd Henffordd, ac Eryri yng Ngogledd Cymru. Croesir Powys yn ôl ac ymlaen gan sawl bwlch mynyddig. Mae gan y sir drefi bach llawn cymeriad yma ac ynddi dydych chi fyth ymhell o ddŵr - boed y rhain yn afonydd pefriog neu yn llynnoedd gwych.**

O barciau dilychwin a bryniau tonnog, dyffrynnoedd Cymreig sy'n ddigon i gipio eich anadl i bentrefi wedi'u cuddio ynddynt, mae'r cyfan gennym ni yma. Mae yna 2,000 o filltiroedd sgwâr o ryddid allan yna gyda'ch enw chi arnyn nhw.

Yn ogystal â chyfleoedd gwaith a seilwaith rhagorol mae Powys yn cynnig croeso Cymreig cynnes. Mwynhewch gydbwysedd gwych rhwng bywyd a gwaith, anadlwch awyr iach y mynydd, a dotiwch at ein trefi marchnad sy'n llawn o siopau annibynnol a siopau boutique yn gwerthu eu cynnyrch crefftau gwlad eu hunain.
Yna, beth am ymgolli yn awyr agored epig ein rhanbarth, ymlaciwch yn ein cefn gwlad ffrwythlon a'r cyfan wrth fwynhau ein cynnyrch lleol - o'r cae i'r fforc mae ein bwyd mor ffres ag y gallai fod.

# BYW

- Tai
- Iechyd
- Hamdden
- Addysg

# GWEITHIO

- Cyflogaeth
- Sgiliau

# LLEOLWCH

- Ein busnesau
- Cymorth a chefnogaeth
- Adeiladau, tir a chynllunio
- Gweithlu
- Seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth
- Rhwydweithiau Busnes



# Byw





# ym Mhowys











# **Byw** i ddeisyfu

## Manteisiwch ar y cyfle i fwynhau ffordd o fyw o fath gwahanol. Treuliwch eich penwythnosau yn crwydro'r cefn gwlad yn cael anturiaethau epig, rydych bob amser yn sicr o ddod o hyd i rywbeth i'w wneud - rhywbeth gwyllt, newydd, cyffrous neu ymlaciol.

Mae gennym ddigonedd o fannau agored, mae gennym barc cenedlaethol gyda llawer o ardaloedd godidog o harddwch naturiol eithriadol ac eangderau mawr o goedwigoedd a choetiroedd. Mae yna gadwyni mawr o fynyddoedd - Bannau Brycheiniog - gyda rhai ucheldiroedd llai (ond heb fod yn llai hardd), sy'n disgyn i ddyffrynnoedd afon eang. Mae tirweddau epig o amgylch pob trofa, gan gynnwys Llynnoedd ac afonydd Cwm Elan, Mynyddoedd Cambria, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r de, ac yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd. Mae gennym raeadrau trawiadol hefyd, megis Pistyll Rhaeadr, sy'n uwch na Rhaeadrau Niagara. Er bod y Canolbarth yn wledig, mae yna steil a sylwedd yma, a gallai eich arian fynd ymhellach hefyd. Gyda threfi sba a marchnad bychain bywiog fel Llandrindod yn hytrach na dinasoedd mawr, rhaeadrau yn hytrach na rhodfeydd prysur wedi'u cyfuno â mynyddoedd, llynnoedd a phobl wych. Mae cymudo yn haws gyda mynediad i drefi mawr a dinasoedd gyda chysylltiadau rheilffyrdd da, rhwydweithiau cefnffyrdd, a chysylltiadau bws cenedlaethol. Mae'r bywyd gwledig yn cyfuno'r awyr agored a byw'n iach. Mae ysbryd cymunedol ac agosatrwydd yn bwysig iawn yn ogystal â rhwydweithiau bro cryf. Mae byw ym Mhowys hefyd yn ymwneud â lles a chynnig cymunedau diogel a chefnogol i fyw a thyfu ynddynt, mae'n lle sy'n eich atgoffa'n gyson sut i ymlacio.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn::
**streetcheck.co.uk**



# **Teimlwch** yn gartrefol

**P'un a ydych yn anelu am dref fywiog neu i ffwrdd i fwynhau heddwch cefn gwlad, mae dewis lle byddwch chi'n byw yn benderfyniad pwysig.**

Yn ffodus, mae digon o ddewis i weddu i'ch ffordd o fyw newydd ym Mhowys p'un a ydych yn rhentu neu brynu, er mwyn i chi wneud y dewis gorau i chi a'ch teulu.

Roedd yr holl brisiau a ddyfynnir o rightmove.com, yn gywir yn 2016

## Ffigurau poblogaeth

## Trefi wedi'u cysylltu'n dda

Yn 2016 roedd tai teras yn gwerthu am bris cyfartalog o £129,005, ac roedd tai pâr yn gwerthu am £151,437.



# **Anadlwch** yn rhwydd

**Felly, rydych wedi dadbacio'r tegell ac wedi blasu tafell o'n bara brith lleol, beth rŵan? Sicrhau bod eich teulu yn dal yn hapus ac yn iach sydd nesaf ar eich rhestr wirio, ac mae gofal iechyd rhagorol ac ymrwymiad ein cynghorau i greu Cymru iachach yn golygu bod eich lles yn cael sylw gofalus.**

Wedi'r cyfan, mae hwn yn sirsydd ddim yn sefyll yn stond. Mae llwyth o bethau I'w weld a'u gwneud o feicio a seiclo, chwaraeon dwr, marchogaeth ceffyl, chwaraeon modur, dringo, ogofa, pysgota, canolfannau gweithgareddau, dyfrffyrdd a pharciau a gerddi i sicrhau cydbwysedd hyfryd rhwng gwaith a bywyd.Mae un ar bymtheg o ganolfannau hamdden gyda gwahanol weithgareddau a chyfleusterau lle gallwch wneud ffrindiau newydd tra'n rhoi tro ar rywbeth newydd. Ac mae NOFIO AM DDIM i bawb dan ddwy ar bymtheg sy'n byw yng Nghymru yn ystod gwyliau ysgol.

Pan ydych chi'n byw yng Nghanolbarth Cymru, mae gennych chi a'ch teulu fynediad at ystod o wasanaethau gofal iechyd - llawer ohonynt am ddim.

## Uned Mân Anafiadau

Ym Mhowys mae deg ysbyty cymunedol, gyda phedwar ohonynt yn darparu cyfleusterau uned mân anafiadau.

## Damweiniau ac Achosion Brys

Darperir cyfleusterau cyffredinol ar gyfer damweiniau ac achosion brys yn y nifer o Ysbytai Cyffredinol sy'n ffinio â'r sir, sydd i gyd yn cael eu hamlygu ar y dudalen gyferbyn.




Mae rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a'i wasanaethau ar gael yn:
**powysthb.wales.nhs.uk/home**



# Ymestyn eich coesau

**Llynnoedd gydag ysbrydion ynddynt, cewri a dewiniaid wedi'u trechu: mae yna fythau a chwedlau yn eich disgwyl chi o amgylch pob cornel. Safle brwydrau mawr drwy'r oesoedd, mae gan Bowys stori i'w hadrodd.**

Mae'r sir yn frith o safleoedd cestyll (640 i fod yn fanwl gywir) a meysydd brwydr, gallwch ddarllen am ein hynafiaid mewn llyfrau a gallwch weld yr hyn a welsant, cyffwrdd yr hyn y gwnaethon nhw ei gyffwrdd, cerdded milltir yn eu hesgidiau. P'un a ydych yn chwilio am antur neu gyfle i gicio'n ôl ac ymlacio, Powys yw'r lle perffaith i chi a'ch teulu. Wedi ei hamgylchynu gan raeadrau dramatig, llwybrau cerdded a Pharciau Cenedlaethol heb eu difetha, mae calon Cymru yn sail ardderchog i ffordd o fyw wirioneddol unigryw.

Dim ond pellter byr o Abertawe a'r unig ran o'n sir yn Ne Cymru ddiwydiannol, mae Cwm Tawe Uchaf a thref Ystradgynlais wedi'u trwytho mewn celfyddyd, diwylliant a threftadaeth ddiwydiannol. Mae'n enwog am ei chysylltiadau â'r artist Josef Herman, y gantores opera ryngwladol Adelina Patti, a David Thomas, sylfaenydd y diwydiant haearn yn Pennsylvania, UDA.

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn o dir calchfaen dramatig y Mynydd Du yn y gorllewin hyd at y ffin â Lloegr y tu hwnt i'r Mynyddoedd Du yn y dwyrain. Y canolfannau gorau yw'r trefi mwyaf yn y de yn Aberhonddu neu'r trefi marchnad fel Y Gelli Gandryll, gyda'r dref flaenorol yn baradwys i rai sy'n hoff o fwyd, a'r olaf yn rheidrwydd i rai sy'n caru llyfrau.

I'r gogledd o'r Bannau poblogaidd mae'r hen drefi sba, fel Llanwrtyd, sy'n adnabyddus drwy'r wlad am ei digwyddiadau ecsentrig a thref gain Llandrindod. Croesir y cefn gwlad tawel gan ffyrdd mynyddig ysblennydd, cefn gwlad agored, a phentrefi tlws sy'n cynnwys amrywiaeth o eglwysi hynafol.

Anelwch i'r dwyrain lle dewch i dref y gororau, Tref-y-clawdd, cartref Clawdd Offa gyda'i chanolfan fasnachol draddodiadol a'i diwydiannau llewyrchus. Fel llawer o drefi gwledig yng Nghanolbarth Cymru, mae gan dref hardd Llanidloes gymuned celf a chrefft ffyniannus ac awyrgylch hamddenol.

Sir Drefaldwyn yw rhan ogleddol Powys, sydd â phoblogaeth fach a llawer o gefn gwlad agored. Mae tref fwyaf y sir, y Trallwng, yn gartref i Gastell Powys, un o gaerau gorau'r wlad, ac mae hefyd yn agos at Lyn Efyrnwy, llecyn hyfryd ar gyfer crwydro a gwylio natur.

Mae rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol drwy'r flwyddyn, gan gynnwys Gŵyl y Gelli, How The Light Gets In, Jazz Aberhonddu a Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd, heb anghofio digwyddiadau mwy anghyffredin fel Cors y Byd. Pencampwriaethau Snorcelu i'ch diddanu. Ac ewch chi ddim yn bell yn ein trefi marchnad cyn i chi ddod ar draws theatr, oriel neu neuadd gyngerdd. Mae gan y sir nifer o sioeau a gwyliau lleol drwy gydol yr haf gyda'r sioe amaethyddol fwyaf yn Ewrop, Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf ar faes y sioe ger Llanfair-ym-Muallt.

Mae mwy o wybodaeth am bethau i'w gweld a'u gwneud ym Mhowys ar gael yn: **midwalesmyway.com**

# Dysgwch y Ffordd Gymreig

**Mae addysg yn bwysig i ni yng Nghanolbarth Cymru ac mae'n gartref i ysgolion a cholegau rhagorol, sy'n cynnig amrywiaeth eang o bynciau i ddenu myfyrwyr o bedwar ban byd.**



Mae mwy o wybodaeth am wasanaethau addysg ym Mhowys ar gael yn:
**powys.gov.uk/en/schools-studentsnptcgroup.ac.uk**

Mae yna lawer o opsiynau o ran meithrinfeydd, darpariaeth cyn ysgol a gofal plant ym Mhowys ar gyfer eich anghenion. Drwy gydol eu dysgu, mae Cwricwlwm Cymru yn annog eich plentyn i ddatblygu eu diddordeb, adeiladu ar eu cryfder, a dysgu mewn lleoliadau creadigol a chalonogol. Mae gan y Sir lefelau sylweddol uwch o alwedigaethau sgilgar a lefelau is o swyddi heb sgiliau o gymharu â gweddill Cymru.

Mae gan y sir lefelau cyflogaeth uchel a swyddi o ansawdd da sy'n rhoi cyfle gwych i ddatblygu gyrfa. Mae gennym gysylltiadau cryf â system addysg uwch y Canolbarth drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru sy'n gweithio â Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a Grŵp Colegau NPTC yn y sector addysg bellach.

## Lleoliadau Ysgolion Uwchradd:

Aberhonddu
Llanfair-ym-Muallt
Crughywel
Llanfair Caereinion
Llandrindod
Llanfyllin
Llanidloes
Machynlleth
Y Drenewydd
Llanandras
Gwernyfed
Y Trallwng
Ystradgynlais

## Lleoliadau Addysg Bellach:

Aberhonddu
Y Drenewydd

# Gweithio




ym Mhowys



riversimple

# Gwneud dyfodol gwell i chi eich hun

**Mae Powys yn lle am gyfle, gan gynnal rhai o'r busnesau mwyaf amrywiol a datblygedig gyda marchnad swyddi iach ar draws y Sectorau Cyhoeddus, Preifat, a'r Trydydd Sector.**

Mae gan y sir ei hun economi gref a gyda'n cyfleoedd cyflogaeth gwych a ffordd ragorol o fyw, mae byw ym Mhowys yn brofiad unigryw fel dim arall. Rydym yn cynhyrchu ceir gyda chelloedd tanwydd hydrogen, systemau modur datblygedig, ymchwil a datblygu, diwydiannau meddygol, datblygu meddalwedd, a pheirianneg uwch. Mae yna fusnesau ffordd o fyw, diwydiannau traddodiadol a bob amser mae galw am wasanaethau lleol.

# Bachwch y swydd berffaith


**Mae gan y sir y gyfradd diweithdra isaf yng Nghymru - mae'n lle gwych i weithio ynddo - ac mae yna bob amser alw am lafur medrus a gwasanaethau proffesiynol /rheoli.**

Mae tua 65,000 o bobl yn gweithio ym Mhowys ar draws ystod eang o sectorau cyflogaeth gan gynnwys:

- Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd 22%
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota 16%
- Cynhyrchu 11%
- Adeiladu 8%
- Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd 24%
- Gwybodaeth a chyfathrebu 2%
- Cyllid a gweithgareddau yswiriant 1%
- Gweithgareddau eiddo tirol 1%
- Gweithgareddau gwasanaeth eraill 6%
- Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gwasanaeth gweinyddol a chymorth 9%



# Parciau a Gweithdai Busnes Powys



# **Medrus** a pharod

**Mae meysydd lle ceir llawer o alw yn cynnwys sgiliau technoleg, y sector adeiladu, a pheirianneg. Mae cynlluniau hyfforddi a phrentisiaethau ar gael trwy gyflogwyr lleol a Phorth Sgiliau Gyrfa Cymru.**

Mae yna amryw o gynlluniau cymorth i helpu'r rhai a wnaed yn ddi-waith yn ddiweddar tuag at gost ailhyfforddi, ynghyd â chefnogaeth ar gyfer darpar gyflogwyr, a darperir pecyn cyflawn o gefnogaeth. Yn ogystal, mae rhaglen Gweithffyrdd + Powys yn cefnogi'r rheiny sy'n economaidd anweithgar dros 54 oed sy'n dychwelyd i'r gwaith.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth:
**careerswales.com/en/skills-gateway**





# Lleolwch



# ym Mhowys









# Teithio drwy'r llwybr golygfaol

**Profwch daith i'r gwaith gyda golygfeydd mor odidog fel y byddwch yn ysu am grwydro ymhellach.**

Neu dilynwch y tro pedol enfawr o un ochr o Gymru i'r llall sy'n cysylltu'r Trallwng, Machynlleth a Thref-y-clawdd. Gyda dwy fil o filltiroedd sgwâr o dirlun syfrdanol a golygfeydd sy'n ymddangos fel pe baent yn mynd ymlaen am byth.

Yn ychwanegol at ffyrdd agored, mae gennym 18 o orsafoedd trenau a rhwydwaith bysiau cynhwysfawr, heb sôn am nifer o reilffyrdd cul. Ar gyfer y teithiau byrrach hynny i'r gwaith, gallech reidio beic i gael antur traws gwlad i'w chofio.

# **Byddwch** mewn cwmni da

**Gyda chymhellion gwych a seilwaith busnes o'r radd flaenaf o fewn parth twf lleol Powys, bydd eich busnes mewn cwmni ardderchog yng Nghanolbarth Cymru. Mae amrywiaeth Powys o sgiliau, gwasanaethau gweithgynhyrchu, cysylltedd a rhwydweithiau cefnogi ar draws y sir yn ei gwneud yn lleoliad delfrydol, beth bynnag fo'ch busnes.**

Mae llwyddiant Canolbarth Cymru a ddatblygwyd yn wreiddiol ar economi amaethyddol, yn rhedeg hyd yn oed yn ddyfnach heddiw, ac yn gartref i rai o'r busnesau mwyaf amrywiol a datblygedig allan yna. Gyda dros 14,000 o fusnesau yn y rhanbarth, rydym yn falch o hyrwyddo a chroesawu mentrau o wahanol sectorau diwydiant, gan gynnwys Ynni a'r Amgylchedd, Bwyd a Ffermio, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Datblygedig, Gwyddorau Bywyd a Thwristiaeth, gyda meintiau yn amrywio o weithrediadau micro i rai ar raddfa fawr. Ein nod yw arallgyfeirio'r sylfaen economaidd ymhellach a chreu cyfleoedd gwaith newydd, sydd yn ei dro yn darparu'r lle a'r isadeiledd i alluogi eich busnes i esgyn i'r entrychion.

I gael cymorth a chyngor, cysylltwch â Thîm Adfywio Cyngor Sir Powys:

**Ffôn: 01597 827656**
**E-bost: invest@powys.gov.uk**
**Gwefan: growinpowys.com**

## Yn y Parth

Mae Powys wedi'i leoli'n gyfleus rhwng nifer o Barthau Menter allweddol gan gynnwys:

- Eryri (Gogledd) - Gan gynnwys Trawsfynydd fel canolbwynt ar gyfer mentrau technoleg carbon isel arloesol a Chanolfan Awyrofod Eryri, gan ffurfio gallu Cymru o ran Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS).
- Glannau Dyfrdwy (Gogledd) - cynnal amrywiaeth eang o ganolfannau gweithgynhyrchu uwch o fewn diwydiannau fel awyrofod, peirianneg modurol a phroses, adeiladu a phecynnu.
- Henffordd, Skylon (Dwyrain) - canolbwyntio'n gryf ar y sector amddiffyn a diogelwch.
- Glynebwy (De) - cynnig mynediad at ganolfannau gweithgynhyrchu eraill yn y DU, gan gynnwys gorllewin canolbarth Lloegr.
- Glannau Port Talbot - sectorau gan gynnwys Deunyddiau a Gweithgynhyrchu datblygedig, Ynni a'r Amgylchedd ac Adeiladu.



# **Ffynnu yn yr** amgylchedd

**Ar draws sir eang Powys mae amrywiaeth enfawr o leoliadau a safleoedd i ddewis ohonynt, i alluogi eich busnes i ffynnu.**

Mae'r sir sy'n awyddus i annog a helpu datblygiad o fewn y Canolbarth, wedi ei dynodi'n Ardal Twf Lleol gan Lywodraeth Cymru mewn canolfannau masnachol allweddol, yn cynnwys Dyffryn Hafren (Y Drenewydd a'r Trallwng), Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais.


## Ardal Dyffryn Hafren

Gyda chysylltiadau agos ag ardal Gororau Swydd Amwythig a Swydd Henffordd, mae gan y lleoliad fynediad i Ganolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr ac Ardaloedd Menter Gogledd Cymru.

Mae'r prif ganolfannau busnes yn y rhanbarth yn cynnwys:

- **Llanfyllin**
- **Llanidloes**
- **Y Drenewydd**
- **Trallwng**





## Dyffryn Dyfi

Yn arwain at Aber Afon Dyfi, mae'r dyffryn mor agos at yr arfordir ag y gallwch fod ym Mhowys, gyda mynediad i Ogledd Orllewin Cymru a thref Prifysgol Aberystwyth.

Y brif ganolfan busnes yn y rhanbarth yw:

- **Machynlleth**

## Canol y Canolbarth

Lleoliad canolog gwych yng Nghymru gyda mynediad hawdd i Ororau Swydd Amwythig, Swydd Henffordd ac ymlaen tuag at Ganolbarth Lloegr.

Mae'r prif ganolfannau busnes yn y rhanbarth yn cynnwys:

- **Llanfair-ym-Muallt**
- **Tref-y-clawdd**
- **Llandrindod**
- **Llanandras**
- **Rhaeadr Gwy**





## Bannau Brycheiniog

Yn ffinio ag ardaloedd blaenau'r cymoedd a De Cymru Ddiwydiannol, mae'r ardal hon yn agos at y Parthau Menter yng Nglyn Ebwy a Henffordd, gan ddarparu mynediad i ganolfannau gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi eraill yn y DU, gan gynnwys Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda chysylltiadau cefnffyrdd i rwydwaith traffyrdd yr M4 / M5.

Mae'r prif ganolfannau busnes yn y rhanbarth yn cynnwys:

- **Aberhonddu**
- **Crughywel**
- **Talgarth**
- **Y Gelli Gandryll**

## Cwm Tawe Uchaf

Dim ond 30 munud o ganol dinas Abertawe gyda mynediad i'r M4 a'r A465, lleolir yr ardal ychydig y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan roi'r gorau o ddau fyd i fusnesau; lleoliad sy'n agos at farchnad ranbarthol a'r unig ran o Bowys o fewn De Cymru Ddiwydiannol.

Y brif ganolfan busnes yn y rhanbarth yw:

- **Ystradgynlais**



# Gweithlu

**Er bod gan y Sir ddiweithdra isel mae llawer o hyn yn ganlyniad i lefelau uchel o gyflogaeth ran-amser, sy'n creu galw sylfaenol am gyflogaeth amser llawn.**

Mae'r potensial uchel ar gyfer recriwtio o fewn rolau amser llawn ar draws y sir yn bodoli o ganlyniad i'r cynnydd presennol mewn rolau rhan amser a'r gweithlu sydd ar gael, gyda rhaglen Cymunedau Cryfach Powys yn nodi'r potensial ar gyfer 10,000 o swyddi newydd ar draws y wlad yn ystod y pum mlynedd nesaf (2016- 21).

Powys yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer y rhai sy'n mudo i mewn i'r wlad o dde-ddwyrain Lloegr. Mae'r gyfran fwyaf o'r rheiny rhwng 16-49 oed, gyda chymwysterau'r sir yn uwch na chyfartaledd Cymru gyda chyfran uwch o swyddi rheoli a chrefftau medrus nag yng ngweddill y DU.

Mae help i gyflogwyr gyda hyfforddiant a recriwtio ar gael drwy Gyrfa Cymru a Busnes Cymru:
**careerswales.com/employers**
**businesswales.gov.wales/skillsgateway**






Coffees & Teas
Milk Shakes & Juices







# **Seilwaith a** chysylltiadau thrafnidiaeth

## Cysylltiadau Cyflymach

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth i osod rhwydweithiau band eang ffibr optig ar draws y prif drefi masnachol a'r Canolbarth gwledig, gan wneud ein rhyngrwyd a chysylltedd symudol yn addas i'r 21ain ganrif ac ymlaen i lefel gystadleuol fyd-eang.

Mae'r gallu i deithio mewn awyren i Lundain o feysydd awyr Caerdydd, Lerpwl, a Manceinion yn golygu y gallai Llundain fod yn ddim ond 2.5 awr i ffwrdd o garreg eich drws.

## Cludiant Cyhoeddus

Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn cysylltu Aberystwyth â'r Amwythig ar draws gogledd y rhanbarth a Gorllewin Canolbarth Lloegr i Faes Awyr Birmingham trwy'r canol, gan gysylltu Abertawe ac Amwythig, tra bod y bws pellter hir T4 / T6 Traws Cymru a gwasanaethau "X" rhanbarthol yn darparu cludiant cyhoeddus ar draws y sir.

## Cysylltiadau Awyr Masnachol

Mae'r rhain ar gael y tu allan i'r rhanbarth ym Maes Awyr Caerdydd Cymru, Birmingham, Lerpwl, a meysydd awyr Manceinion.

## Y Porthladdoedd Môr agosaf

Mae'r porthladdoedd masnachol agosaf y tu allan i'r rhanbarth yng Nghaergybi, Abergwaun, Penfro, Abertawe, Caerdydd a Lerpwl.

## Y Ffyrdd i Lwyddiant

Mae Powys yn buddsoddi mewn ffyrdd gwell o wella cysylltiadau ar draws y sir, gyda'r buddsoddiad diweddar yn ffordd osgoi'r Drenewydd yn ei gwneud yn bosibl i deithio'n gyflymach i safleoedd diwydiannol allweddol o fewn yr ardal.



Y ffyrdd allweddol o'r gogledd i'r de yn y rhanbarth yw'r:

- A470 (T) sy'n cysylltu Caerdydd a de Cymru i'r gogledd trwy ganolbarth Cymru i Drawsfynydd a gogledd Cymru (A55).

*Amserau Teithiau yn fras*

Y ffyrdd allweddol o'r dwyrain i'r gorllewin yn y rhanbarth yw'r:

- A44(T), A470(T), sy'n cysylltu canol Powys i Aberystwyth yn y gorllewin.
- A44(T), A470(T), A489(T) a'r A458(T) canol Powys i'r dwyrain a'r A49(T) a'r A5(T) a'r M54 ar hyd ffin y Gororau ac i Orllewin Canolbarth Lloegr a thu hwnt.
- A483 (T) sy'n cysylltu gogledd Powys i Wrecsam, Glannau Merswy, yr M6 a Manceinion.



# **Cymorth**
# a Chefnogaeth

**Mae Powys yn cynnwys mynyddoedd, bryniau, afonydd a llynnoedd. Cyfnewidiwch giwiau'r drafffordd am fynyddoedd wedi'u mowldio gan bron i wyth mil o flynyddoedd o weithgarwch dynol.**

Mae bod â gwybodaeth leol bob amser yn gymorth mawr. Mae Gwasanaeth Adfywio'r Cyngor Sir yn rhoi cymorth a chefnogaeth i arwain busnesau sy'n bwriadu adleoli i'r ardal hon. Gyda chysylltiadau i mewn i eiddo lleol, gwasanaethau statudol a pherthynas agos ag asiantaethau cymorth y sector cyhoeddus gallwn eich cysylltu gyda'r bobl iawn i wneud eich symud mor llyfn a rhwydd â phosibl.

**Symud i'r Canolbarth**
Adfywio ac Eiddo Corfforaethol,
Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir,
Spa Road East, Llandrindod, Powys,
LD1 5LG.

I gael cymorth a chyngor, cysylltwch â Thîm Adfywio Cyngor Sir Powys:

**Ffôn: 01597 827656**
**E-bost: invest@powys.gov.uk**

# Byw Gweithio Symud



Powys

**Tîm Adfywio Cyngor Sir Powys;**
01597 827657
invest@powys.gov.uk